# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Neil Davies

Iwerddon

Dyluniad Siediau Gwartheg

*1/3/2020*

## 1 Cefndir

Rwy’n ffermio defaid a gwartheg bîff ar ein fferm deuluol yn Llangamarch. Rydym yn byw mewn ardal o Gymru lle mae’r glawiad yn uchel, ac felly rhaid gaeafu’r gwartheg dan do, sy’n gostus. Rwyf ar hyn o bryd yn magu a phesgi 150 o wartheg Angus y flwyddyn. Fy mhrif reswm dros fynd i Iwerddon oedd dod o hyd i ddull mwy cost-effeithiol o gadw’r gwartheg dan dro dros y gaeaf yn hytrach na gwellt.

## 2 Amserlen

Yn ystod fy ymweliad ag Iwerddon, bûm yn ffodus iawn o gael ymweld â llawer o siediau gwartheg da iawn a chwrdd â ffermwyr diddorol. Ymwelais ag wyth sied wartheg gwahanol a oedd gyda lloriau delltog, ac roedd pob sied ychydig yn wahanol, a gyda'u manteision a’u hanfanteision. Ond daeth un peth yn amlwg: dyma beth oeddwn i ei angen ar fy fferm fy hun.


## Woolsey Concrete

Ar fy niwrnod cyntaf yn Iwerddon, ymwelais â Woolsey Concrete, lle cefais daith o amgylch eu ffatri a gweld sut mae’r lloriau delltog concrit yn cael eu gwneud ganddynt, cyn ymweld â thair fferm i weld eu cynnyrch yn cael ei ddefnyddio.









## Easyfix

Roeddwn yn hoffi'r syniad o gael matiau rwber ar ben y lloriau delltog er mwyn sicrhau cyfforddusrwydd i'r anifeiliaid. Yna, ymwelais â Easyfix lle mae'r matiau rwber yn cael eu dylunio a'u gwneud. Fe ddangoson nhw fi o gwmpas eu ffatri cyn mynd â fi i weld y matiau ar y fferm.








## Keenan


Ymwelais hefyd â ffatri Keenan, lle dysgais am eu wagenni cymysgu Mecfiber a’r buddion o fwydo TMR i dda byw. Cefais daith fanwl iawn o amgylch y ffatri, lle dysgais am y gwahanol gamau sydd ynghlwm â dylunio a gwneud eu porthwyr, ynghyd â hanes y cwmni.







# Gerard Dineen

Yn dilyn cyflwyniad yr oedd Gerard wedi'i wneud i Cyswllt Ffermio yn y gorffennol, roeddwn yn awyddus iawn i ymweld â'i fferm yn ystod fy nghyfnod yn Iwerddon, ac yntau wedi ennill gwobr ffermwr cig eidion y flwyddyn yn 2018; wrth ymweld ag ef, roedd yn amlwg pam. Dysgais lawer am gofnodi data, rhoi sylw i fanylion, a sut mae'n gwneud bywoliaeth allan o'i fuches sugno ar ei fferm 100 erw.








# Teagasc

Ar fy niwrnod olaf yn Iwerddon, ymwelais â Teagasc Research Centre, lle cefais daith o'u fferm a gweld rhai treialon diddorol iawn oedd ganddynt ar y pryd. Roedd ganddynt osodiad gwych o ran gwartheg, gyda rhai o'r siediau gorau a welais ar fy ymweliad ag Iwerddon, ynghyd â system drin uwch-dechnoleg a weithredir gan aer.










## Camau nesaf

Ers dychwelyd o Iwerddon, rwyf wedi rhoi hyn i gyd ar waith ac wedi trosi fy sied wartheg gyda gwely gwellt yn sied gyda lloriau delltog, y gallaf ei defnyddio i gadw fy ngwartheg trwy'r gaeaf a phesgi'r gwartheg yn yr haf heb unrhyw gost. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i elw fy musnes gwartheg, gan na fyddwn wedi gallu parhau i ffermio gwartheg bîff ar y fferm hon pe bawn i wedi parhau i ddefnyddio gwellt. Rwyf hefyd wedi prynu porthwr Keenan!



